Diwrnod y Ddaear yn croesawu

‘Cocos a Glo: Aber Afon Dyfrdwy trwy’r oesoedd’

Digwyddiad ar y cyd rhwng **Dyffryn Maes Glas**, **Caru Aber Dyfrdwy** a Phrosiect y **Teithwyr Chwilfrydig**

20 Ebrill 2024, 10am – 3pm, Parc Treftadaeth Maes Glas, Treffynnon**.**

Ymunwch â ni am ddiwrnod llawn sgyrsiau a gweithgareddau sy’n datgelu hanes cudd Aber Dyfrdwy. Rhywbeth at ddant pawb! Trwy gyflwyniadau bywiog, arbrofion ymarferol a sesiynau creadigol, dewch i ddarganfod sut y siapiwyd y presennol gan y gorffennol, a sut gall hanes ysbrydoli ein dyfodol. Tâl mynediad arferol i Barc Treftadaeth Maes Glas. D.S. Cynhelir y sgyrsiau yn Saesneg.

Amserlen

Amser	Lleoliad	Beth	Pwy
10.30-12.00 & 1.30 – 3yh	**Bwthyn Cwm Llydan**	**‘Chwedlau o’r Dyfrdwy’** *Sesiynau llên gwerin yng nghwmni un o chwedleuwyr gorau yng Nghymru. Dewch i wrando ar chwedl y fro, dod â’ch stori eich hun a chreu llyfr, neu ddysgu sut i ddefnyddio peiriant ‘cranky’ o’r oes a fu!*	Mae gan Peter Stevenson sawl cyfrol o chwedlau i’w enw. Yn ddiweddar mae wedi bod wrthi’n casglu straeon ar hyd Llwybr yr Arfordir.
10.30-11.00 & 13.30-14.00	**Yr Ysgol:**	**‘Enwau lleoedd Aber Dyfrdwy’** *Beth mae enwau’n datgelu am hanes trigolion ac ieithoedd y naill ochr i Aber Ddyfrdwy? Beth a ddysgir am yr anheddiadau ac ymarferion sydd wedi siapio’r ardal?*	Dr David Parsons (Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd)
11.00 -11.30 & 14.00-14.30	**Yr Ysgol:**	**‘Cocos a Glo: Thomas Pennant, Maes Glas ac Aber Dyfrdwy’** *Cipolwg ar waith y naturiaethwr ac awdur Thomas Pennant, Plasty Downing, a’r ysgrifau a ddylanwadodd ar gymaint o ymwelwyr i Faes Glas ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif.*	Yr Athro Mary-Ann Constantine (Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd & Prosiect y Teithwyr Chwilfrydig)
11.30- 12.00 & 14.30- 15.00	**Yr Ysgol:**	**‘Cerdded yn y clai: mapio newid amgylcheddol trwy gelf’** *Sut wnaeth prosiect celf cyfoes (mwdlyd iawn!) archwilio hanes amgylchedd y Ddyfrdwy.*	Dr Paul Jones (Prifysgol Wrexham)
10.30-12.00 & 1.30–3pm	**Ysgubor / Lle Celf**	**Gweithdy Celf Comig** *Dewch i ddysgu sut i greu cymeriadau bywiog a straeon pwerus gydag arlunydd sy’n arbenigo mewn celf Manga. Addas i bob oedran. Dim angen profiad blaenorol!*	Mae Irina Richards yn arlunydd sy’n tynnu ar y traddodiad Manga o Siapan ac yn cael ei hysbrydoli gan chwedlau hanes Prydain cynnar.
12-1pm Gweithgareddau amser cinio: mwynhewch ginio yn y caffi ar y safle, a chymryd rhan yn ein harbrofion Diwrnod y Ddaear **1pm - 1.30pm Lansio Arddangosfa Cocos a Glo yn Abbey Farm.** Llyfryn arddangosfa am ddim, a diod meddal i bawb sy’n troi lan!			
3pm: Ymuno â Emily Lake (*Caru Aber Dyfrdwy*) am Daith Bywyd Gwyllt ar hyd Llwybr yr Arfordir. (Tua 1 awr)			